

Archwilio Ein Byd

Arwyddion a Symbolau



Fersiwn Estynedig

Archwilio Ein Byd

Arwyddion a Symbolau

Tania ap Siôn a Leslie J Francis
Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Aled a Siân

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn gwneud pethau cyffrous ac yn archwilio'r byd o'u cwrmpas. Yn y gyfres *Archwilio Ein Byd*, mae Aled a Siân yn rhannu rhai o'u profiadau gyda'u ffrindiau, Cristnogol, Hindŵaidd, Iddewig a Mwslimaidd. Mae Aled a Siân hefyd yn mwynhau gwrandio ar storïau eu ffrindiau ac yn dysgu sut mae'r rhain yn perthnasu â'u storïau nhw eu hunain. Mae hyn yn helpu'r ffrindiau ddod i adnabod ei gilydd yn well.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, ac mae'n seiliedig ar ymchwil helaeth i sut mae plant yn dysgu amdany'n nhw eu hunain, am bobl eraill, ac am y byd maen nhw'n byw ynddo.

I ategu'r gyfres hon o lyfrau stori, mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer plant ac athrawon, y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 3 - 5 oed a phlant 5 - 7 oed, ond mae'r adnoddau sy'n bosib eu llwytho i lawr yn gwneud y gyfres yn berthnasol i blant iau a phlant hŷn hefyd.

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair, Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Wales.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopiō, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Teitlau'r gyfres *Archwilio Ein Byd* yw:

Plant 3 – 5 oed
Dathliadau
Fi fy hun ac Eraill
Adegau a Thymhorau

Plant 5 – 7 oed
Teithiau
Pobl Arbennig
Arwyddion a Symbolau





Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn siarad gyda'u ffrindiau am yr holl bethau arbennig maen nhw'n eu gwneud ac yn eu gweld. Heddiw mae Aled a Siân yn dweud wrth eu ffrindiau am eu hymweliad arbennig â'r hen gastell. Cyn cychwyn, fe edrychodd Aled a Siân yn yr arweinlyfr er

mwyn dod o hyd i'r ffordd at yr hen gastell. Roedd yr arweinlyfr yn nodi bod eisiau iddyn nhw edrych am yr arwydd fyddai'n dangos y ffordd iddyn nhw. Fe wnaethon nhw ddilyn yr arwydd hwnnw.




Pan ddaeth Aled a Siân yn nes at yr hen gastell, fe ddaethon nhw at y wal uchel ac at y giât fawr. Roedd y giât yn gwarchod y ffordd i barc y castell ac i'r castell. Yma, fe wnaethon nhw weld ail arwydd. "Tybed beth mae'r arwydd

yna'n ei olygu?" meddai Aled a Siân gyda'i gilydd. Fe ddywedodd y dyn oedd yn sefyll wrth y giât wrthyn nhw, "Mae'r arwydd yna'n nodi mai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n gofalu am y castell."



Pan oedd Aled a Siân yn cerdded ar hyd y ffordd trwy'r parc, fe ddaethon nhw at nant yn llifo ar draws y ffordd. Roedden nhw'n gweld y ceir yn sblasio trwy'r dŵr. Yma, fe wnaethon nhw weld trydydd arwydd. "Tybed beth mae'r

arwydd yna'n ei olygu?" meddai Aled a Siân gyda'i gilydd. Fe ddywedodd y ddynes oedd yn sefyll wrth y nant wrthyn nhw, "Mae'r arwydd yna'n nodi bod rhyd yma, gyda dŵr yn llifo ar draws y ffordd."



Pan aeth Aled a Siân ymlaen ar eu taith ar hyd y ffordd trwy'r parc, fe wnaethon nhw weld coedwig. Roedd ceir wedi parcio oddi ar y ffordd. Yma, fe wnaethon nhw weld pedwerydd arwydd. "Tybed beth mae'r arwydd yna'n ei

olygu?" meddai Aled a Siân gyda'i gilydd. Fe ddywedodd y plant oedd yn sefyll wrth y ceir wrthyn nhw, "Mae'r arwydd yna'n nodi bod byrddau yma i chi gael bwyta eich picnic."



Roedd Aled a Siân yn llawn cyffro ynghylch yr ymweliad arbennig hwn â'r hen gastell. Maen nhw'n dweud wrth eu ffrindiau am yr arwyddion wnaethon nhw eu gweld a'u dilyn. Maen nhw'n siarad am yr arwydd i'r castell, arwydd

yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr arwydd am y rhyd, ac arwydd y man picnic. "Nawr, dywedwch wrthym ni am yr arwyddion rydych chi wedi eu gweld," meddai Aled a Siân wrth eu ffrindiau.



Mae Peter a Mary yn dweud wrth Aled a Siân am eu hymweliad arbennig â'r eglwys gerrig. Cyn cychwyn, fe edrychodd Peter a Mary yn yr arweinyfr er mwyn dod o hyd i'r ffordd at yr eglwys gerrig. Roedd yr arweinyfr yn

nodi bod eisiau iddyn nhw edrych am yr arwydd fyddai'n dangos y ffordd iddyn nhw. Pan oedden nhw'n cychwyn ar eu taith fe wnaethon nhw weld yr arwydd ar ochr y ffordd. Fe wnaethon nhw ddilyn yr arwydd hwnnw.



Pan ddaeth Peter a Mary yn nes at yr eglwys gerrig, fe ddaethon nhw at y ffens ac at y giât. Roedd y giât yn gwarchod y llwybr i'r fynwent ac i'r eglwys. Yma, fe wnaethon nhw weld ail arwydd. "Tybed beth mae'r arwydd

yna'n ei olygu?" meddai Peter a Mary gyda'i gilydd. Fe ddywedodd y dyn oedd yn sefyll wrth y giât wrthyn nhw, "Mae'r arwydd yna'n nodi mai Cristnogion lleol sy'n gofalu am yr eglwys."



Pan ddaeth Peter a Mary at ddrws yr eglwys, fe wnaethon nhw agor y drws a cherdded i mewn. Roedden nhw'n teimlo bod yr eglwys yn lle mawr iawn. Yma, fe wnaethon nhw weld trydydd arwydd. Yng nghefn yr eglwys fe wnaethon nhw weld y bedyddfaen. Yn ymyl y bedyddfaen

roedd iwg yn llawn o ddŵr. "Tybed beth mae'r arwydd yna'n ei olygu?" meddai Peter a Mary gyda'i gilydd. Fe ddywedodd y ddynes oedd yn sefyll wrth y bedyddfaen wrthyn nhw, "Mae'r arwydd yna'n nodi bod Cristnogion yn cael eu bedyddio â dŵr."



Pan aeth Peter a Mary ymlaen ar eu taith o gwmpas yr eglwys gerrig, fe aethon nhw i lawr yr eil ganol hir. Yma, fe wnaethon nhw weld pedwerydd arwydd. Yn nhu blaen yr eglwys fe wnaethon nhw weld yr allor. Ar yr allor roedd plât i ddal bara a chwpan i ddal gwin. “Tybed beth mae’r

arwydd yna’n ei olygu?” meddai Peter a Mary gyda’i gilydd. Fe ddywedodd y plant oedd wrth yr allor wrthyn nhw, “Mae’r arwydd yna’n nodi bod Cristnogion yn dod ynghyd i ddathlu’r cymun gyda’i gilydd.”



Mae Nathan a Rachel yn dweud wrth Aled a Siân am eu hymweliad arbennig â'r synagog frics coch. Cyn cychwyn, fe edrychodd Nathan a Rachel yn yr arweinyfr er mwyn dod o hyd i'r ffordd at y synagog fawr. Roedd yr arweinyfr

yn nodi bod eisiau iddyn nhw edrych am yr arwydd fyddai'n dangos y ffordd iddyn nhw. Pan oedden nhw'n cychwyn ar eu taith fe wnaethon nhw weld yr arwydd ar ochr y ffordd. Fe wnaethon nhw ddilyn yr arwydd hwnnw.



Pan ddaeth Nathan a Rachel yn nes at y synagog frics coch, fe ddaethon nhw at y ffens ac at y giât. Roedd y giât yn gwarchod y ffordd i'r iard ac i'r synagog. Yma, fe wnaethon nhw weld ail arwydd. "Tybed beth mae'r arwydd

yna'n ei olygu?" meddai Nathan a Rachel gyda'i gilydd. Fe ddywedodd y dyn oedd yn sefyll wrth y giât wrthyn nhw, "Mae'r arwydd yna'n nodi mai Iddewon lleol sy'n gofalu am y synagog."



Pan ddaeth Nathan a Rachel at ddrws y synagog, fe wnaethon nhw agor y drws a cherdded i mewn. Roedden nhw'n teimlo bod y synagog yn lle mawr iawn. Yma, fe wnaethon nhw weld trydydd arwydd. Yng nghefn y synagog fe wnaethon nhw weld y ffenestr. Yn y ffenestr roedd llun

dŵr yn hollti i wneud llwybr. "Tybed beth mae'r arwydd yna'n ei olygu?" meddai Nathan a Rachel gyda'i gilydd. Fe ddywedodd y ddynes oedd yn sefyll wrth y ffenestr wrthyn nhw, "Mae'r arwydd yna'n nodi bod Iddewon yn cofio am y bobl yn croesi'r Môr Coch."



Pan aeth Nathan a Rachel ymlaen ar eu taith o gwmpas y synagog frics coch, fe aethon nhw at Arch y Torah. Yma, fe wnaethon nhw weld pedwerydd arwydd. Yn nhu blaen y synagog fe wnaethon nhw weld ffenestr arall. Yn y ffenestr roedd llun pryd bwyd Seder. “Tybed beth mae’r arwydd

yna’n ei olygu?” meddai Nathan a Rachel gyda’i gilydd. Fe ddywedodd y plant oedd yn sefyll wrth Arch y Torah wrthyn nhw, “Mae’r arwydd yna’n nodi bod Iddewon yn dod ynghyd i rannu pryd bwyd y Pasg Iddewig gyda’i gilydd.”




Mae Ahmed a Salma yn dweud wrth Aled a Siân am eu hymweliad arbennig â'r mosg cromennog. Cyn cychwyn, fe edrychodd Ahmed a Salma yn yr arweinylfr er mwyn dod o hyd i'r ffordd at y mosg cromennog. Roedd yr arweinylfr yn

nodi bod eisiau iddyn nhw edrych am yr arwydd fyddai'n dangos y ffordd iddyn nhw. Pan oedden nhw'n cychwyn ar eu taith fe wnaethon nhw weld yr arwydd ar ochr y ffordd. Fe wnaethon nhw ddilyn yr arwydd hwnnw.




Pan ddaeth Ahmed a Salma yn nes at y mosg cromennog, fe ddaethon nhw at y ffens ac at y giât. Roedd y giât yn gwarchod y llwybr i'r lawntiau ac i'r mosg. Yma, fe wnaethon nhw weld ail arwydd. "Tybed beth mae'r arwydd yna'n ei

olygu?" meddai Ahmed a Salma gyda'i gilydd. Fe ddywedodd y dyn oedd yn sefyll wrth y giât wrthyn nhw, "Mae'r arwydd yna'n nodi mai Mwslimiaid lleol sy'n gofalu am y mosg."



Pan ddaeth Ahmed a Salma at ddrws y mosg, fe wnaethon nhw agor y drws a cherdded i mewn. Roedden nhw'n teimlo bod y mosg yn lle mawr iawn. Yma, fe wnaethon nhw weld trydydd arwydd. Yn y fynedfa i'r mosg, fe wnaethon nhw weld yr ystafell ymolchi. Fe wnaethon nhw

glywed sŵn dŵr yn sblasio. "Tybed beth mae'r arwydd yna'n ei olygu?" meddai Ahmed a Salma gyda'i gilydd. Fe ddywedodd y ddynes oedd yn sefyll wrth yr ystafell ymolchi wrthyn nhw, "Mae'r arwydd yna'n nodi bod Mwslimiaid yn ymolchi cyn gweddio."



Pan aeth Ahmed a Salma ymlaen ar eu taith o gwmpas y mosg cromennog, fe aethon nhw i ystafell sgwâr. Yma, fe wnaethon nhw weld pedwerydd arwydd. Yn yr ystafell, fe wnaethon nhw weld bwyd wedi ei osod ar fwrdd mawr. Roedd teuluoedd wedi dod ynghyd o gwmpas y bwrdd.

“Tybed beth mae’r arwydd yna’n ei olygu?” meddai Ahmed a Salma gyda’i gilydd. Fe ddywedodd y plant oedd wrth y bwrdd wrthyn nhw, “Mae’r arwydd yna’n nodi bod Mwslimiaid yn dod ynghyd i ddathlu Eid gyda’i gilydd.”




Mae Rajeev a Meena'n dweud wrth Aled a Siân am eu hymweliad arbennig â'r deml brysur. Cyn cychwyn, fe edrychodd Rajeev a Meena yn yr arweinylfr er mwyn dod o hyd i'r ffordd at y deml brysur. Roedd yr arweinylfr yn nodi

bod eisiau iddyn nhw edrych am yr arwydd fyddai'n dangos y ffordd iddyn nhw. Pan oedden nhw'n cychwyn ar eu taith fe wnaethon nhw weld yr arwydd ar ochr y ffordd. Fe wnaethon nhw ddilyn yr arwydd hwnnw.



Pan ddaeth Rajeev a Meena yn nes at y deml brysur, fe ddaethon nhw at y ffens ac at y giât. Roedd y giât yn gwarchod y ffordd i'r gerddi ac i'r deml. Yma, fe wnaethon nhw weld ail arwydd. "Tybed beth mae'r arwydd yna'n ei

olygu?" meddai Rajeev a Meena gyda'i gilydd. Fe ddywedodd y dyn oedd yn sefyll wrth y giât wrthyn nhw, "Mae'r arwydd yna'n nodi mai Hindŵiaid lleol sy'n gofalu am y deml."



Pan ddaeth Rajeev a Meena at ddrws y deml, fe wnaethon nhw agor y drws a cherdded i mewn. Roedden nhw'n teimlo bod y deml yn lle mawr iawn. Yma, fe wnaethon nhw weld trydydd arwydd. Ar un ochr i'r deml fe wnaethon nhw weld allor duw Hindŵaidd. Ar yr allor roedd bowlenni

bach o ddwr. "Tybed beth mae'r arwydd yna'n ei olygu?" meddai Rajeev a Meena gyda'i gilydd. Fe ddywedodd y ddynes oedd yn sefyll wrth yr allor wrthyn nhw, "Mae'r arwydd yna'n nodi bod Hindŵiaid yn offrymu dŵr ar eu hallorau."



Pan aeth Rajeev a Meena ymlaen ar eu taith o gwmpas y deml brysur, fe aethon nhw at yr allor fawr. Yma, fe wnaethon nhw weld pedwerydd arwydd. Wrth yr allor, roedd offeiriad yn siantio. Roedd yn rhannu bwyd wedi ei fendithio i bawb oedd

yno. “Tybed beth mae’r arwydd yna’n ei olygu?” meddai Rajeev a Meena gyda’i gilydd. Fe ddywedodd y plant oedd wrth yr allor wrthyn nhw, “Mae’r arwydd yna’n nodi bod Hindŵiaid yn dod ynghyd i ddathlu puja gyda’i gilydd.”



Mae Aled a Siân yn mwynhau gwrando ar eu ffrindiau Peter a Mary, Nathan a Rachel, Ahmed a Salma, a Rajeev a Meena. Maen nhw'n mwynhau gofyn cwestiynau am yr arwyddion mae eu ffrindiau yn eu gweld. Maen nhw wrth

eu bodd yn cael ffrindiau sy'n Gristnogion, Iddewon, Mwslimiaid a Hindŵiaid, gydag arwyddion mor ddiddorol i'w rhannu â nhw.



Maen nhw'n dychmygu dilyn yr arwyddion i'r eglwys gerrig,
y synagog frics coch, y mosg cromennog, a'r deml brysur.
Maen nhw'n gweld y bedyddfaen a'r allor, y Môr Coch a'r

pryd bwyd Seder, yr ystafell ymolchi a'r pryd bwyd Eid, y
dŵr ar yr allor a'r bwyd wedi ei fendithio.



Mae Aled a Siân yn meddwl am yr holl arwyddion o'u cwrmpas. Maen nhw'n cofio bod arwyddion yn nodi llawer o wahanol bethau. Maen nhw'n dechrau gweld sut mae

arwyddion o gymaint o grefyddau'r byd yn bwysig i bobl yng Nghymru heddiw.

Mae Aled a Siân yn archwilio arwyddion a symbolau ac maen nhw'n ymweld â chastell hynafol. Pan fyddan nhw'n dod yn ôl, mae Aled a Siân yn dweud yr hanes am eu diwrnod allan wrth eu ffrindiau, ac maen nhw'n gwranddo ar storïau eu ffrindiau hefyd. Wrth i'r storïau ddatblygu, mae Aled a Siân yn dechrau gweld sut mae crefyddau'r byd yn arddangos eu harwyddion a'u symbolau o'u cwmpas.



Bear Lands Publishing